**PRIFFYRDD, CYMRU**

**2013 RHIF. 56**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

# GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (FFORDD DDIDDOSBARTH GER CRONFA DDŴR COEDTY, DOLGARROG, CONWY) 2013

*Gwnaed* *16 Awst 2013*

*Yn dod i rym* *22 Awst 2013*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 248 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990[1].

## Enwi, Dehongli a Chychwyn

**1.** (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Ffordd Ddiddosbarth ger Cronfa Ddŵr Coedty, Dolgarrog, Conwy) 2013.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" *("the Council")* yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;

ystyr "y datblygwr" *("the developer")* yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac ystyr "y plan a adneuwyd" *("the deposited plan")* yw'r plan sy'n dwyn y teitl "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Ffordd Ddiddosbarth ger Cronfa Ddŵr Coedty, Dolgarrog, Conwy) 2013" sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad bod y Gorchymyn wedi ei wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

## Cau Priffyrdd

**2.** Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4, 5 a 6 mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r darnau o'r brifffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir â llinellau sebra trwm ar y plan a adneuwyd. Ymddengys iddynt y byddai'n hwylus gwneud hynny er budd diogelwch y defnyddwyr, ac er hwyluso symudiad y traffig, er budd diogelwch ar y priffyrdd yr arfaethir eu hadeiladu yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd gan y Cyngor ar 05/07/2012 o dan Rhan 3 o Ddeddf 1990, o dan gyfeirnod 0/38639 ar gyfer y

datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**3.** Crëir, er boddhad rhesymol y Cyngor, y priffyrdd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â dotwaith ar y plan a adneuwyd, a byddant, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980(2), yn briffyrdd sydd i'w cynnal a'u cadw ar draul y cyhoedd a'r Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd drostynt.

**Darpariaethau Angenrheidiol neu Hwylus cyn Cau Priffordd**

**4.** Ni chaniateir cau'r rhannau o'r briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 hyd nes y bydd -

(a) y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos drwy ba fodd y bwriedir cau'r rhannau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1;

(b) y datblygwr wedi darparu'r briffordd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;

(c) y gwaith datblygu y cyfeirir ato yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn wedi dechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig o'r rheidrwydd i gau'r priffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 1 er mwyn caniatáu i'r datblygiad fynd rhagddo; a

(ch) bod y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod paragraffau (a), (b) ac (c) wedi eu bodloni.

**Ymgymerwyr a Darparwyr Statudol**

**5.** Pan fo gan ymgymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau'r rhannau o'r briffordd (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau o ran y cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Os na fydd y datblygiad yn Atodlen 3 wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan 3 o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatâd cynllunio, neu os yw'r caniatâd yn cael ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 16 Awst 2013

*R Morgan*

**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1990 p.8. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac maent yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 iddi.
**(2)** 1980 p.66

## YR ATODLENNI

Y rhannau o'r briffordd ger cronfa ddŵr Coedty, Dolgarrog, Conwy

(Bras amcan yw pob mesuriad)

## ATODLEN 1

**Disgrifiad o'r rhannau o'r briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn**

Y darn hwnnw o'r ffordd ddiddosbarth sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd o ben draw gogleddol y Bont Newydd ger Cronfa Ddŵr Coedty, Dolgarrog yng Nghonwy am 50 o fetrau ac y mae ei hyd yn 2.6 metr a chyfanswm ei harwynebedd yn 130 o fetrau sgwâr.

Y darn hwnnw o'r ffordd ddiddosbarth sy'n ymestyn i gyfeiriad y de o ben draw deheuol y Bont Newydd ger Cronfa Ddŵr Coedty, Dolgarrog yng Nghonwy am 155 o fetrau ac y mae ei hyd yn 2.8 metr a chyfanswm ei harwynebedd yn 434 o fetrau sgwâr.

## ATODLEN 2

**Disgrifiad o'r rhannau newydd o briffordd sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn hwn**

Darn o ffordd ddiddosbarth, sy'n gwyro o'r ffordd ddiddosbarth bresennol wrth ben draw gogleddol y Bont Newydd ger Cronfa Ddŵr Coedty, Dolgarrog yng Nghonwy ac yn ymestyn i gyfeiriad y gogledd am 50 o fetrau i'w huniad â'r ffordd ddiddosbarth bresennol y mae ei lled yn 4.5 o fetrau a chyfanswm ei harwynebedd yn 225 o fetrau sgwâr ac y rhoddwyd y cyfeirnod Y-Y iddi ar y plan a adneuwyd.

Darn o ffordd ddiddosbarth, sy'n gwyro o'r ffordd ddiddosbarth bresennol wrth ben draw deheuol y Bont Newydd ger Cronfa Ddŵr Coedty, Dolgarrog yng Nghonwy gan ymestyn i gyfeiriad y de am 110 o fetrau i'w huniad â'r ffordd ddiddosbarth bresennol y mae ei lled yn 4 o fetrau a chyfanswm ei harwynebedd yn 440 o fetrau sgwâr ac y rhoddwyd y cyfeirnod Z-Z iddi ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 3**

**Y Datblygiad**

Gwaith datblygu arfaethedig sy'n cynnwys gosod piblinell Coety uchaf o'r newydd. Bydd y gwaith hefyd yn cynnwys gosod piblinell ymchwydd newydd, adeiladu 3 strwythur cysylltiedig, uwchraddio llwybrau mynediad a mân waith lledu ar y ffordd gyhoeddus mewn nifer o fannau.

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (FFORDD DDIDDOSBARTH GER CRONFA DDŴR COEDTY, DOLGARROG, CONWY) 2013**

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 248 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i awdurdodi cau'r rhannau o'r briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn ac i ddarparu ar gyfer y rhannau newydd o'r briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2.

Awdurdodir y cau er hwyluso symudiad y traffig, ac er budd diogelwch y defnyddwyr, ar y priffyrdd yr arfaethir eu hadeiladu yn unol â'r caniatâd cynllunio. Os gwneir y Gorchymyn, nid awdurdodir cau'r priffyrdd ond er mwyn galluogi'r gwaith datblygu a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r hysbysiad hwn gael ei wneud. Bydd y Gorchymyn yn peidio â bod yn effeithiol os daw'r caniatâd cynllunio i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn ddrafft a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn Llyfrgell Llanrwst, Plas yn Dre, Ffordd yr Orsaf, Llanrwst, LL26 0DF yn ystod oriau swyddfa arferol, neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1057934.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu

b. na chydymffurfiwyd â gofyniad gweithdrefnol yn y Ddeddf honno,

cyn pen 6 wythnos o 22 Awst 2013 wneud cais i'r Uchel Lys i'r diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk (Detholer: 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Deddfwriaeth Ddrafft', 'Offerynnau Anstatudol Drafft', 'Deddf Cynllunio Gwlad a Thref', 'Gorchmynion Cau TCPA', '2013').

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

*M D Burnell*

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLENNI**

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**ATODLEN 1**

**Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn**

Y darn hwnnw o'r ffordd ddiddosbarth sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd o ben draw gogleddol y Bont Newydd ger Cronfa Ddŵr Coedty, Dolgarrog yng Nghonwy am 50 o fetrau ac y mae ei hyd yn 2.6 metr a chyfanswm ei harwynebedd yn 130 o fetrau sgwâr.

Y darn hwnnw o'r ffordd ddiddosbarth sy'n ymestyn i gyfeiriad y de o ben draw deheuol y Bont Newydd ger Cronfa Ddŵr Coedty, Dolgarrog yng Nghonwy am 155 o fetrau ac y mae ei hyd yn 2.8 metr a chyfanswm ei harwynebedd yn 434 o fetrau sgwâr.

**ATODLEN 2**

**Disgrifiad o'r rhannau newydd o briffordd sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn hwn**

Darn o ffordd ddiddosbarth, sy'n gwyro o'r ffordd ddiddosbarth bresennol wrth ben draw gogleddol y Bont Newydd ger Cronfa Ddŵr Coedty, Dolgarrog yng Nghonwy ac yn ymestyn i gyfeiriad y gogledd am 50 o fetrau i'w huniad â'r ffordd ddiddosbarth

bresennol y mae ei lled yn 4.5 o fetrau a chyfanswm ei harwynebedd yn 225 o fetrau sgwâr ac y rhoddwyd y cyfeirnod Y-Y iddi ar y plan a adneuwyd.

Darn o ffordd ddiddosbarth, sy'n gwyro o'r ffordd ddiddosbarth bresennol wrth ben draw deheuol y Bont Newydd ger Cronfa Ddŵr Coedty, Dolgarrog yng Nghonwy gan ymestyn i gyfeiriad y de am 110 o fetrau i'w huniad â'r ffordd ddiddosbarth bresennol y mae ei lled yn 4 o fetrau a chyfanswm ei harwynebedd yn 440 o fetrau sgwâr ac y rhoddwyd y cyfeirnod Z-Z iddi ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 3

## Y Datblygiad

Gwaith datblygu arfaethedig sy'n cynnwys gosod piblinell Coety uchaf o’r newydd. Bydd y gwaith hefyd yn cynnwys gosod piblinell ymchwydd newydd, adeiladu 3 strwythur cysylltiedig, uwchraddio llwybrau mynediad a mân waith lledu ar y ffordd gyhoeddus mewn nifer o fannau, yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd gan y Cyngor dan Rhan III o Ddeddf 1990 ar 5 Gorffennaf 2012 o dan gyfeirnod DC/0/38639.